

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy


Ymchwil gymdeithasol
Social research



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Gweithredol: Gwisg Ysgol a Chostau eraill Addysg: safbwyntiau a phrofiadau yng Nghymru



Gwisg Ysgol a Chostau eraill Addysg: safbwyntiau a phrofiadau yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

Contractor: BMG Research

Awdur: Karen Kellard, Mary Costello a David Godfrey

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r safbwyntiau hynny o anghenraid yn cael eu harddel gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Julie Owens

Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5484

E-bost: Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, blwyddyn

ISBN

© Hawlfraint y Goron 2010

Yr acronymau

Rhestr o'r Byrfoddau a'r Acronymau

CAB	Canolfannau Cyngor ar Bopeth
APADGOS	Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
DCSF	Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
AB	Addysg Bellach
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
ALI	Awdurdod Lleol
AALI	Awdurdod Addysg Lleol
OFT	Y Swyddfa Masnachu Teg
AG	Addysg Gorfforol
PTA	Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cafodd BMG Research ei gomisiynu yn hydref 2009 gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ymchwil i farn rhieni/gofalwyr yng Nghymru ar wisg ysgol a chostau ehangach addysg.

Cydnabuwyd, er y gall polisi gwisg ysgol fod o fantais i ysgolion, eu disgyblion a'u rhieni (os caiff ei weithredu'n gywir), gellid bod perygl ymyleiddio neu beri anfantais i rai grwpiau oherwydd, er enghraifft, cost yr eitemau gofynnol, amgyffredion a safbwyntiau am yr hyn sy'n orfodol a'r hyn sy'n wirfoddol a'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer cost eitemau'r wisg ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i ddeall y materion hyn a'r materion eraill cysylltiedig yn fwy manwl er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i'w defnyddio ar gyfer llunio polisiâu ac ymarfer dilynol ar gyfer gwisg ysgol, er mwyn dileu creu stigma a chyfrannu at y targed ehangach sef dileu tlodi plant ac anfantais.

Nod ac amcanion yr ymchwil

Nod cyffredinol yr ymchwil felly oedd pwyso a mesur barn rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yng Nghymru ar ddilysrwydd, defnyddioldeb a manteision cael gwisg ysgol, ynghyd â'u profiadau a'u barn am gost prynu gwisg ysgol, a pha mor hawdd yw cael gafael arnynt, ac archwilio sut y mae costau ehangach addysg yn effeithio ar blant, teuluoedd ac ysgolion. Mae amcanion yr ymchwil felly yn ymwneud ag archwilio a chanfod y canlynol:

- profiadau a barn plant a phobl ifanc am wisg ysgol;
- faint o ysgolion sydd â gofynion/adwerthwyr gwisg ysgol penodol ynteu a ydynt ar gael yn ehangach (a barn rhieni);
- barn am gost gwisg ysgol, ac i ba raddau y gall hyn roi rhai teuluoedd dan anfantais neu wneud iddynt deimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn;
- i ba raddau yr ymgynghorir gyda rhieni/yr ystyrir barn rhieni wrth lunio polisiâu gwisg ysgol;
- costau ehangach addysg a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar wahanol deuluoedd neu'n arwain at ymyleiddio neu ymddieithrio rhai; ac

- i ba raddau y mae cymorth ariannol ar gael (grantiau, cinio ysgol am ddim ayb) a'r rôl y mae'n ei chwarae – ac ymwybyddiaeth rhieni ohono.

Dull ymchwilio

Dechreuodd yr astudiaeth gyda chyfnod cychwynnol, yna:

- ymchwil desg;
- ymgynghori â rhanddeiliaid;
- arolwg ffôn gyda rhieni a gofalwyr plant oed ysgol;
- arolwg post o'r holl ysgolion; ac
- astudiaethau achos ansoddol gydag ysgolion a theuluoedd.

Canfyddiadau

Costau Gwisg Ysgol

- Roedd gofynion gwisg ysgol i'w gweld bron ym mhob ysgol, gydag ond un y cant o'r ymatebwyr yn adrodd nad oedd dim gofyniad gwisg ysgol yn ysgol eu plentyn. Tueddai'r gofynion gwisg ysgol fod am siwmperi, topiau *fleece* a/neu gardiganau, sgertiau neu drowsusau, esgidiau, bagiau ysgol, sanau a chotiau.
- O safbwynt y prif eitemau a oedd yn ofynnol, roedd angen i bedair rhan o bump o'r topiau fod â bathodyn neu logo ac roedd angen i oddeutu hanner y crysau fod â bathodyn neu logo.
- Er bod blaseri ond yn ofynnol gan oddeutu un rhan o bump o'r disgyblion (mewn ysgolion uwchradd yn bennaf), dyma'r eitem a oedd fwyaf tebygol o ond bod ar gael oddi wrth un adwerthwr arbenigol.
- Roedd teis a thopiau (topiau *fleece*, crysau chwys ayb) hefyd ond ar gael oddi wrth un adwerthwr arbenigol yn y rhan fwyaf o achosion.
- Yn gyffredinol, adroddodd 42 y cant eu bod yn wynebu rhyw gymaint o anhawster ariannol wrth brynu gwisg ysgol eu plentyn. Roedd anawsterau o'r fath yn llawer mwy tebygol o gael eu datgan ymysg teuluoedd sydd ag incwm llai na £25,000. Er hynny, hyd yn oed ymysg y rheini sydd ag incwm dros £25,000, adroddodd un rhan o bump am anawsterau ariannol wrth brynu gwisg ysgol eu plentyn.

- Dywedwyd mai'r eitemau a achosai'r anhawster mwyaf oedd siwmperi/crysau chwys/topiau. Dywedwyd bod costau'r rhain (gyda logo) yn oddeutu £12 i £15 y top.
- Adroddodd un ar bymtheg y cant o'r ymatebwyr fod yr anawsterau ariannol wedi bod cymaint fel na wnaethant ar rai adegau brynu eitem a oedd yn ofynnol oherwydd y gost – roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ymysg aelwydydd gydag incwm is. Canlyniad mwyaf cyffredin anawsterau o'r fath oedd gorfod addasu rhan arall o gyllideb yr aelwyd.
- Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi adrodd eu bod yn fodlon gyda chost y wisg ysgol, dywedodd 26 y cant nad oeddent - yn ddisyndod, roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ymysg aelwydydd incwm is. Roedd ffigurau tebyg yn amlwg o safbwynt costau offer chwaraeon/addysg gorfforol.
- O safbwynt gofynion offer chwaraeon ac AG, dywedodd 86 y cant o'r rhieni y ceid gofynion o'r fath ar gyfer eu plentyn – trowsus cwta, crys ac esgidiau ymarfer yn bennaf.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd yn ofynnol i eitemau offer chwaraeon/AG fod â bathodyn na logo arnynt – yr eithriad i hyn oedd crysau-t/topiau gyda fersiwn â logo'n ofynnol yn oddeutu hanner yr achosion.
- Nid oedd dim offer chwaraeon penodol yn ofynnol mewn 70 y cant o achosion – os oedd gofynion roeddent yn bennaf yn ymwneud â chrimogau, arbedwyr dannedd neu ffon hoci.
- Dywedodd nifer fechan o rieni (10 y cant) nad oeddent wedi prynu eitem o'r offer chwaraeon/AG oherwydd y gost - unwaith eto roedd hyn yn llawer mwy tebygol o fod yn wir ymysg y grŵp incwm aelwyd is.

Tripiau, gweithgareddau ac offer ysgol

- Gofynnwyd i un rhan o dair o rieni dalu am 1 neu 2 o dripiâu ysgol ar gyfer eu plentyn.
- Roedd oddeutu tri chwarter y rhieni'n hapus gyda nifer y tripiâu ysgol y gofynnwyd iddynt gyfrannu atynt, ond roedd oddeutu chwarter ddim yn hapus. Er bod y rheini mewn grwpiau incwm aelwyd is ychydig yn fwy

tebygol o fod yn anhapus am hyn, roedd yr ymatebwyr yn y ddau grŵp yn mynegi pryder.

- Roedd un o bob 10 o rieni heb anfon eu plentyn ar drip undydd ysgol oherwydd y gost, ac roedd un o bob 5 heb anfon eu plentyn ar drip preswyl oherwydd y gost. Roedd tebygolrwydd hyn yn cynyddu ymysg aelwydydd incwm is (ac yn enwedig ymysg y rheini a oedd yn ddibynnol ar fudd-daliadau fel eu prif ffynhonnell incwm), ond roedd yn broblem o hyd i grwpiau incwm is ac uwch, fel ei gilydd.
- Roedd ymatebwyr y deuai prif incwm yr aelwyd o gyflogaeth a budd-daliadau'n fwy tebygol na'r rheini y deuai eu prif incwm o naill ai fudd-daliadau'n unig neu gyflogaeth yn unig i beidio ag anfon eu plentyn ar drip preswyl oherwydd y gost.
- Adroddodd dros hanner y sampl *na* chawsant eu gwahodd i drafod unrhyw anawsterau i dalu am dripiâu ysgol gyda'r athro, er i 27 y cant ddweud eu bod *bob amser* yn cael eu gwahodd i drafod anawsterau o'r fath.
- Wedi dweud hynny, dywedodd oddeutu dwy ran o dair o rieni eu bod yn hapus yn gyffredinol gyda'r costau sy'n gysylltiedig â thripiâu ysgol ar gyfer eu plentyn, gyda mwy o rieni o grwpiau aelwydydd incwm is yn debygol o fynegi eu bod yn anhapus.
- Teimlai oddeutu hanner yr ymatebwyr dan bwysau i gyfrannu at gost tripiâu ysgol.
- Roedd cyfraniadau at amrywiaeth eang o gostau eraill yn gysylltiedig â'r ysgol hefyd yn amlwg, gan gynnwys cyfraniadau at wersi coginio, offer dylunio a thechnoleg, deunyddiau celf, rhoddion elusennol, cyfraniadau at ffeiriau/rafflau ysgol a stondinau cacennau neu debyg. Dengys tystiolaeth ansoddol bod cost rhai o'r gweithgareddau hyn yn gallu bod yn sylweddol - er enghraifft gall cynhwysion coginio fod yn £3 neu £4 yr wythnos.
- Dywedodd dros hanner y rhieni eu bod wedi prynu llun ysgol o'u plentyn yn ystod y flwyddyn diwethaf, yn y mwyafrif helaeth o achosion roedd y gost dros £10.

- Roedd dros ddwy ran o bump o'r sampl hefyd wedi talu am weithgareddau ychwanegol ar gyfer eu plentyn megis disgo ysgol, costau drama'r ysgol neu hobiau eraill yn yr ysgol.

Cymorth gyda chostau addysg

- Yn gyffredinol roedd 45 y cant o'r sampl yn ei chael yn anodd talu'r holl gostau addysg a drafodwyd yn yr arolwg. Roedd aelwydydd incwm isel a theuluoedd mawr yn llawer mwy tebygol o adrodd am anawsterau nag eraill, er bod anawsterau i'w gweld ym mhob grŵp.
- Er hynny, roedd yn ymddangos y ceid diffyg ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael o bosibl i deuluoedd, yn enwedig i'r rheini ar fudd-daliadau y gallent gael rhyw gymaint o gymorth gyda chost tripiâu preswyl neu gefnogaeth drwy gyfrwng grantiau gwisg ysgol.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni hefyd nad oedd dim cyfle i brynu eitemau gwisg ysgol ail-law yn eu hysgol (66 y cant) - er bod tystiolaeth o'r ysgolion eu hunain yn nodi bod gan gyfran uwch gyfleuster o'r fath.
- Mae tystiolaeth ansoddol o'r ysgolion yn awgrymu y gwneir ymdrechion i sicrhau na chaiff plant eu hallgau na'u hymyleiddio oherwydd na allant fforddio eitemau gwisg ysgol neu fforddio mynd ar dripiâu ysgol (er enghraifft, drwy gynnig cefnogaeth yn dawel bach). Er hynny, yn ôl y rhieni roedd cryn amharodrwydd i geisio help, a diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o'r help a oedd ar gael.

Trosolwg

Mae'r ymchwili hwn wedi darparu sylfaen dystiolaeth ar bolisiâu ac arferion gwisg ysgol yng Nghymru, yn ogystal â barn rhieni ac ysgolion ar weithredu polisiâu o'r fath ac ar i ba raddau y maent yn effeithio ar deuluoedd. Cyflawnwyd hyn drwy fabwysiadu amrywiol ddulliau ymchwili, gan gynnwys arolwg o farn a phrofiadau rhieni, arolwg o arferion a pholisiâu ysgolion ac astudiaethau achos ansoddol gyda theuluoedd ac ysgolion, yn ogystal ag adolygiad byr o'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes. Hefyd, dylanwadwyd ar gwmpas yr ymchwili gan ymgynghoriad cynnar ymysg rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant.

Yn bennaf, er bod teuluoedd yn amlwg yn teimlo straen ariannol darparu gwisg ysgol a chostau eraill yr ysgol ar gyfer eu plant, maent yn gefnogol o wisg ysgol. Yn ddisyndod, mae'r dystiolaeth o anawsterau ariannol wrth dalu am gostau'r ysgol, wedi ei ganoli ymysg teuluoedd incwm is - er bod hyn yn berthnasol i'r teuluoedd hynny sy'n ddibynol ar fudd-daliadau fel eu prif ffynhonnell incwm yn ogystal â theuluoedd sydd mewn gwaith cyflog isel. Mae'r anawsterau hyn yn cynyddu wrth i nifer y plant gynyddu. Mae'r costau'n cynyddu wrth i'r plant symud drwy ysgolion uwchradd, gyda nifer fwy o alwadau ariannol am eitemau ysgol (ee, offer chwaraeon, cynhwysion coginio) a thripiâu ysgol.

Felly, mae craidd parhaus o oddeutu 1 o bob 10 o deuluoedd yn ymddangos fel eu bod yn wynebu anawsterau sylweddol o safbwynt fforddio gwisg ysgol a thripiâu ysgol. O waith yr astudiaeth achos, mae'n ymddangos bod rhai ysgolion wedi canfod ffyrdd o reoli'r anawsterau y mae rhai teuluoedd yn gallu eu hwynebu, drwy adnabod teuluoedd eu hysgolion a darparu cymorth mewn modd cynnil nad yw'n creu stigma (er enghraifft, hepgor y gost ar gyfer rhai eitemau, neu ganiatáu i'r teulu dalu am dripiâu mewn rhandaliadau). Er hynny, yn gyffredinol mae'n ymddangos fel bod ysgolion yn tueddu i beidio â rhoi gormod o sylw i'r cymorth y maent yn gallu ei roi, oherwydd ofn agor y 'llifddorau' o alw am help ariannol (efallai mewn rhai achosion oddi wrth deuluoedd nad oes arnynt o bosibl ei angen mewn gwirionedd). At hynny, mae'n bosibl nad yw teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a/neu efallai eu bod yn amharod i geisio help.

Argymhellion

Yn gyffredinol, gwelwyd cefnogaeth aruthrol i wisg ysgol *per se* oddi wrth y rhieni, y disgyblion a'r ysgolion eu hunain. Er hynny, mae nifer o argymhellion wedi codi o'r dystiolaeth, yn gysylltiedig â pholisïau ac ymarfer fel ei gilydd.

Argymhellion ar gyfer polisiâu – materion i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu hystyried

- Adolygu costau'r ddarpariaeth fwyd a llety (ar gyfer tripiâu preswyl) ar gyfer y rheini sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a phwy a ddylai

dalur gost hon er mwyn osgoi rhoi straen sylweddol ar gyllid ysgolion (yn enwedig yr ysgolion hynny sydd â nifer fawr o deuluoedd a fyddai'n gymwys o bosibl).

- Parhau i ddarparu arweiniad i ysgolion ar ddatblygu a gweithredu polisi gwisg ysgol (gan gynnwys esiamplau arferion da), a hefyd sicrhau bod ysgolion yn gallu, o hyd, datblygu eu polisïau yn unol â gofynion penodol eu hysgol. Os yn bosibl, dylai ysgolion uwchradd roi ystyriaeth i wneud eu polisi yn gydnaws â gofynion yr ysgol gynradd i weld a allai unrhyw eitemau craidd (megis offer chwaraeon neu eitemau gwisg ysgol sylfaenol) barhau i gael eu defnyddio yn yr ysgolion uwchradd.
- Ystyried ymestyn cymorth ar gyfer costau gwisg ysgol i'r rheini sydd ar incwm isel (er enghraifft, yn cael cyfradd uchel o gredydau treth) gan nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys am unrhyw gymorth ariannol ond sy'n gallu wynebu anawsterau sylweddol wrth dalu am yr eitemau gofynnol.
- Sicrhau nad yw grant unwaith ac am byth Llywodraeth Cynulliad Cymru (£100 yn daladwy ym Mlwyddyn 7) yn disodli unrhyw ddarpariaeth gan yr AALI.
- Sicrhau bod darpariaeth yr AALI ar gael yn gyson ar draws yr holl AALLau.
- Ystyried ymarferoldeb capio cost tripiâu preswyl blynyddol neu unigol – o bosibl mewn ymgynghoriad ag ysgolion a rhieni.
- Sicrhau y ceir arweiniad polisi priodol i ysgolion o safbwynt cynnig cymorth ariannol i deuluoedd i'w helpu i dalu am gostau tripiâu ysgol. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod rhai rhieni nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael ac mae eraill yn amharod i geisio ei gael.
- Cynnig arweiniad i ysgolion sy'n dymuno sefydlu eu siop wisg ysgol eu hunain; byddai hyn yn eu galluogi i ddelio'n uniongyrchol gyda chyflenwyr 'archebu drwy'r post'.
- Adolygu'r canlyniadau o beilot Gliniaduron Cymru'n Un i asesu a oes angen i'r dull hwn gael ei weithredu mewn ysgolion uwchradd yn ogystal ag ysgolion cynradd.

Argymhellion ar gyfer arferion – materion i'r ysgolion eu hystyried

- Ystyried y mynediad at gyflenwyr gwisg ysgol – gallai rhai teuluoedd (yn enwedig y rheini heb gar) ei chael yn anodd cyrraedd at y cyflenwyr. Fel y nodir uchod, un opsiwn o bosibl fyddai i'r ysgol gynnal siop wisg ysgol, gan hwyluso mynediad, cadw'r gost yn isel i rieni a galluogi i unrhyw elw gael ei fwydo'n uniongyrchol i arian yr ysgol. Mae'n bosibl hefyd y gallai rhieni gael gafael ar gyflenwadau gwisg ysgol ar-lein (gan dybio bod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd).
- Archwilio ymarferoldeb sefydlu perthynas uniongyrchol gyda chwmni cyflenwi gwisg ysgol sy'n gallu cyflenwi'r ysgol yn uniongyrchol (efallai drwy archebion post) - mewn rhai achosion mae'n bosibl y byddai'r cyflenwyr yn fodlon cytuno i gyfran fechan o'r incwm o'r archebion a roddir gan rieni fynd yn uniongyrchol i gronfa'r ysgol.
- Rhaid i ysgolion ystyried yn ofalus y gofyn am eitemau â logo gorfodol wrth iddynt ddatblygu eu polisiau gwisg ysgol; a dylai ysgolion geisio cael cydbwysedd priodol rhwng cael eu hunaniaeth eu hun, a hefyd sicrhau bod eitemau'r wisg ar gael yn hawdd ac yn fforddiadwy. Dylai ysgolion felly adolygu'r angen am eitemau â logo, neu eu cyfyngu i un neu ddau o eitemau dillad (am bris rhesymol) yn unig.
- Dylai ysgolion archwilio ymarferoldeb gallu gwnïo bathodynau neu logos ar eitemau ysgol er mwyn galluogi rhieni i gael hyblygrwydd a dewis wrth brynu eitemau oddi wrth amrywiol gyflenwyr gan ychwanegu logo'r ysgol arnynt wedyn.
- Annog disgyblion a rhieni i hawlio mwy o 'berchnogaeth' dros y polisi gwisg ysgol – os ceir mewnbwn oddi wrth y grwpiau hyn i'r polisi gwisg ysgol mae'n debygol o fod yn fwy derbyniol ac o'r herwydd ceir mwy o gydymffurfiaeth.
- Sicrhau nad yw disgyblion sydd ar incwm is yn teimlo ar y cyrion mewn unrhyw ffordd (er enghraifft, drwy eistedd mewn rhan wahanol o'r neuadd fwyta i fwyta cinio pecyn neu drwy eu bod yn hawdd adnabod pwy nad ydynt yn mynd ar drip ysgol neu wyliau preswyl).

- Ystyried defnyddio cynllun menthyg neu roddi gwisg ysgol i'r rheini sydd mewn caledi eithriadol.
- Mae angen i ysgolion gyfathrebu gyda'r holl rieni i'w cynghori ynghylch y mathau gwahanol o gymorth sydd ar gael ar gyfer gwisg ysgol (benthyca eitemau sbâr, unrhyw wisg ail-law sydd ar gael ac yn y blaen) oherwydd mae rhai teuluoedd nad ydynt am dynnu sylw at eu hamgylchiadau ariannol eu hunain.
- Hybu ac annog siopau gwisg ysgol ail-law.
- Ystyried sefydlu ystafell adnoddau mewn ysgolion lle gall disgyblion fenthyca eitemau mewn modd nad yw'n creu stigma (er enghraifft, drwy ddefnyddio'r ystafell ar gyfer gweithgareddau eraill megis astudio tawel).
- Ystyried cyflwyno cynllun talu fesul cam ar gyfer tripiau preswyl yr ysgol, gan alluogi taliadau drwy randaliadau (gan ymestyn ar ôl y trip ysgol os oes angen).
- Gwasgaru amseriad tripiau ysgol neu eu cynnig ar sawl achlysur fel nad yw'n gwbl amlwg pwy a fethodd fynd oherwydd na allent ei fforddio.
- Rhoi ystyriaeth ddilys i deuluoedd nad oes ganddynt ond fynediad cyfyngedig i'r rhyngwrwyd/band eang gartref, a sicrhau nad yw'r plant dan unrhyw anfantais oherwydd hyn.
- Dylai ysgolion gynnal ymgynghoriadau parhaus gyda phobl ifanc (o bosibl drwy gynghorau ysgol) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o effeithiau costau gwisg ysgol a'r costau cysylltiedig eraill, ac yn deall yr effeithiau hynny.

Argymhellion ar gyfer arferion – materion i ysgolion a mudiadau sector gwirfoddol eu hystyried

- Annog ysgolion a mudiadau sy'n gweithio gyda theuluoedd ar incwm isel i weithio mewn partneriaeth fel y gall ysgolion gyfeirio rhieni at y mudiadau hyn am help a chynghor gyda rheoli arian a hawlio cymorth y maent yn gymwys amdano megis cinio ysgol am ddim.
- Hybu presenoldeb penaethiaid mewn sesiynau hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth a gynhelir gan fudiadau sydd ag arbenigedd mewn tlodi

ymsg plant fel y gallant ddysgu am y materion y mae teuluoedd incwm isel yn eu hwynebu ac am yr arferion da i leihau costau addysg.